## ATODIAD 1

**CYNLLUN TAIR BLYNEDD 2010-11**

**Cyflwyno Sylwadau'r Prif Bwyllgor Craffu ar y Cynllun Tair Blynedd drafft o'i gyfarfod ar 23 Ebrill 2010**

### 1. Cefndir

Yn dilyn gwaith cynllunio manwl Blwyddyn Tri (2010-11) Cynllun Tair Blynedd y Cyngor, yn unol â'r addewid, cyflwynwyd y Cynllun drafft gerbron y Prif Bwyllgor Craffu Dydd Gwener 23 Ebrill 2010.
Gwahoddwyd Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion gweddill y Pwyllgorau Craffu yn ogystal i'r cyfarfod.

Diweddarwyd yr aelodau am y trefniadau diwygio'r Cynllun gan gynnwys trefniadau Rheolaeth Rhaglen

Aethpwyd trwy'r 6 maes Rhaglen yn eu tro a'r Prosiectau Strategol

**2.**

| Sylwadau'r Pwyllgor ar y Rhaglenni | Ymateb |
|---|---|
| **i. Trawsffurfio'r Cygnor** | |
| • Awgrymwyd bod y rhaglen yma yn sylweddol a heriol i'w gyflawni o fewn y flwyddyn | Bydd nifer o faterion yn y rhaglen yma yn gosod seiliau ar gyfer rhaglen 2011-14 |
| • Gofynwyd am fwy o eglurder o dan y bennawd "Llywodraethu Corfforaethol" | Cynllun wedi ei gryfhau |
| • O dan y maes "Newid Diwylliant"- rhif 2 'roedd aelodau yn meddwl nad oedd Cyfathrebu o fewn y Cyngor eto yn ddigon cryf ac yn arbennig negesuon i fyny, lawr ac ar draws adrannau | Cynllun olaf o dan y bennawd wedi ei gryfhau gydag adolygiad i'w gynnal gyda staff yn y flwyddyn er mwyn asesu cynnydd mewn gwell Cyfathrebu |
| ii. **Economi ac Adfywio** | |
| • Dymuniad gan yr aelodau i 'r Cyngor gynnwys y maes Twristiaeth a Marchnata'r Sir yn y cynllun | Prif Fater 13 wedi ei ychwnegu i wneud y mwyaf o dargedu digwyddiadau mawr ymhellach i ddod i'r Sir gan sicrhau ychwnegu budd i'r Sir gyfan o ddigwyddiadau newydd |
| iii. **Amgylchedd ac Isadeiledd** | |
| • Tai Fforddiadwy- angen sicrhau bod y cynlluniau oddi tan y maes yma yn cynnwys ymateb i rwystrau e.e. hwyluso mynediad at forgeisi | Mae'r materion yma yn cael sylw o fewn y cynlluniau |

| | |
|---|---|
| • Gofynnwyd a yw'r targed o 100 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn rhy isel.<br><br>.<br>• Dymuniad i ychwanegu'r gair "lleol" i'r gosodiad "dod a thai gwag yn ol i ddefnydd _____".<br><br>**iv. Plant a Phobl Ifanc**<br>• Awgrymwyd ychwanegu Cynlluniau Rhiantu i'r maes Ymyrraeth Gynnar.<br><br>**v. Gwerth am Arian**<br>• Dim sylwadau pellach<br><br>**vi. Pobl Bregus**<br>• Dim sylwadau pellach<br><br>**Cyffredinol**<br>• Cytunwyd bod angen adolygu'r Dangosyddion | Am fod sylw flwyddyn yma i gynlluniau gorfodaeth; os bydd y maes yn parhau agen sylw yn 2011 bod ystyriaeth i godi'r targed yn sylweddol bryd hynny.<br>Cytunnodd yr aelodau gyda'r awgrym<br><br>Wedi ei ychwanegu i'r geiriad<br><br><br>Yn rhoi y maes rhiantu fel cynllun ychwanegol o dan y maes Ymyrraeth Cynnar ( Rhif 31)<br><br><br><br><br>I'w diweddaru yng Nghynllun 2011-14 |